

Cystadleuaeth Arlunio Ysgolion Sir Ddinbych
Denbighshire Schools Art Competition

LLES • WELLNESS



Beth Sy'n Eich Gwneud Chi'n Hapus?
What Makes You Happy?



Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gofyn i blant rhwng 5-12 oed dynnu lluniau o'r pethau sy'n eu gwneud yn hapus
Denbighshire County Council is asking 5-12 year olds to draw the things that make them happy

MAE POB PLENTYNDOD WERTH BRWYDRO DROSTO
EVERY CHILDHOOD IS WORTH FIGHTING FOR

**Cyngor Sir Ddinbych a Hwb Gogledd Cymru NSPCC Prestatyn
Cystadleuaeth Arlunio Ysgolion**



LLES
*'Beth sy'n Eich
Gwneud Chi'n Hapus?'*



Addas i:	5-12 oed
Dyddiad agor ar gyfer ceisiadau:	Dydd Mawrth 6 Rhagfyr 2022
Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:	Dydd Gwener 27 Ionawr 2023

Yng Nghyngor Sir Ddinbych, rydym yn falch o gefnogi Hwb Gogledd Cymru y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) ym Mhrestatyn, gan warchod plant a chanfod ffyrdd o atal cam-drin. Pan fydd angen help llaw ar blentyn, pan fydd rhieni'n ei chael hi'n anodd a phan fydd angen i ddeddfau newid, mae'r NSPCC yno. Mae'r NSPCC yn cynnig gwasanaethau sydd yn newid bywyd, fel Childline, llinell gymorth 24 awr ar gyfer plant a phobl ifanc, Llinell Gymorth NSPCC ar gyfer oedolion sydd â phryder am blant a phobl ifanc a gwasanaeth ysgolion 'Codi Llais, Cadw'n Ddiogel'.

Nod Cystadleuaeth Arlunio Ysgolion Sir Ddinbych yw codi ymwybyddiaeth am wasanaeth Childline yr NSPCC - achubiaeth hanfodol er mwyn i bob plentyn a pherson ifanc allu siarad am eu hiechyd meddwl.

Beth yw'r gystadleuaeth?

Mae bod yn greadigol yn ffordd bwerus i blant a phobl ifanc fynegi sut maen nhw'n teimlo. Felly, rydym yn gofyn i blant dan 12 oed Sir Ddinbych anfon lluniau i ni o bethau sy'n eu gwneud yn hapus - gallai hynny fod yn daith i'r parc neu'r traeth, ymweld â theulu, treulio amser gyda ffrindiau, neu chwarae chwaraeon - gyda chyfle hefyd i'w celf gael ei arddangos yn un o'n llyfrgelloedd ledled y Sir yn ystod Wythnos Iechyd Meddwl Plant, 6-12 Chwefror 2023, gyda'r prif enillydd yn cael gweithdy am ddim yn yr ysgol gydag artist blaenllaw o Gymru.

Allwn ni ddim aros i dderbyn eich ceisiadau anhygoel!

Pethau mae angen i chi wybod

- Gellir defnyddio papur maint A4, A3 neu A2 mewn unrhyw liw a gellir defnyddio unrhyw ddeunyddiau, technegau neu brosesau i greu eich gwaith (e.e. lluniadu, paentio, gwneud printiau, ffabrig, ffotograffiaeth, dylunio â chymorth cyfrifiadur, collage, montage, cerameg).
- I gystadlu, rhaid i'r plentyn neu'r person ifanc fod rhwng 5 a 12 oed.
- **Categori Teilyngdod Arbennig** - gall plant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig ddewis cael ystyried eu ceisiadau ar gyfer y categori hwn.
- Mae'r gystadleuaeth yn dechrau **Ddydd Mawrth 6 Rhagfyr 2022** ac yn gorffen am **4yp Ddydd Gwener 27 Ionawr 2023**.



Postiwch eich cais i:
Sarah Dixon,
d/o Addysg a Gwasanaethau Plant,
Cyngor Sir Ddinbych,
Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ,
neu ei ddanfon â llaw i'r
Derbynfa yn Neuadd y Sir, Rhuthun,
wedi ei gyfeirio at **Sarah Dixon.**



Cyngor Sir Ddinbych a Hwb Gogledd Cymru NSPCC Prestatyn

Cystadleuaeth Arlunio Ysgolion

LLES

'Beth Sy'n Eich Gwneud Chi'n Hapus?'



Well gennych gyflwyno cais fel grŵp?

Gall grwpiau o ddau neu fwy o ddisgyblion gyflwyno cais grŵp.

I'ch helpu

- ★ Byddwch yn **wreiddiol, feiddgar, lliwgar, greadigol** ac yn **dal sylw** yn eich gwaith arlunio;
- ★ Byddwch yn **artistig** - rydyn ni'n chwilio am waith arlunio **ddychmygus** a fydd yn sefyll allan o'r dorf.

Sut fydd yr enillwyr yn cael eu dewis?

- ✍ Bydd ceisiadau'n cael eu beirniadu ar wreiddioldeb, creadigrwydd, hyder wrth drin deunyddiau a beiddgarwch ac effaith.
- ✍ Bydd ceisiadau sy'n adlewyrchu thema **LLES - 'Beth Sy'n Eich Gwneud Chi'n Hapus?'** ar y rhestr fer ar gyfer y beirniadu.
- ✍ Bydd panel, gan gynnwys Cyngor Sir Ddinbych a chynrychiolwyr NSPCC, yr wythnos yn dechrau 30 Ionawr 2023 i ystyried y ceisiadau ar y rhestr fer.
- ✍ Bydd gwobrau'n cael eu dyfarnu i geisiadau rhagorol ar draws y grŵp oedran 5-12 oed a'r categori teilyngdod arbennig.
- ✍ Cyhoeddir enillwyr drwy Trydar @cyfoeth_enrich yn ystod Wythnos Iechyd Meddwl Plant, 6-12 Chwefror 2023.

Beth allech chi ei ennill

- ★ Gwobrau unigol sy'n briodol i oedran ar gyfer ceisiadau rhagorol.
- ★ Bydd **Enillydd Cyffredinol Sir Ddinbych** yn cael gweithdy am ddim yn yr ysgol gydag artist blaenllaw o Gymru, yn amodol ar gyngor Covid-19 sy'n berthnasol ar y pryd.
- ★ Bydd yr enillydd cyffredinol yn cael gwahoddiad i gyflwyniad gan Gadeirydd Cyngor Sir Ddinbych a chynrychiolwyr Hwb Gogledd Cymru NSPCC Prestatyn, ac yna derbyniad yn Neuadd y Sir, Rhuthun, ar ddyddiad i'w gadarnhau.
- ★ Bydd detholiad o'r ceisiadau gorau yn cael eu harddangos yn y llyfrgelloedd ledled Sir Ddinbych yn ystod Wythnos Iechyd Meddwl Plant, 6-12 Chwefror 2023 ac ar-lein trwy www.denbighshireenrichment.com



Cyngor Sir Ddinbych a Hwb Gogledd Cymru NSPCC Prestatyn

Cystadleuaeth Arlunio Ysgolion

LLES

*'Beth Sy'n Eich
Gwneud Chi'n Hapus?'*



Meini Prawf Mynediad

Mae mynediad ar agor i blant a phobl ifanc ysgolion Sir Ddinbych hyd at 12 oed.

Rhaid cyflwyno'r holl geisiadau drwy ysgol o fewn Sir Ddinbych, grwp ieuenctid neu wasanaeth/sefydliad cymorth arall a fynychwyd gan y plentyn/person ifanc.

Rhaid i bob cais fod yn waith gwreiddiol y plentyn neu'r person ifanc ei hunan ac ni ddylid eu copïo o unrhyw ffynhonnell arall.

Rhaid i bob cais adlewyrchu'r thema:- **LLES - 'Beth Sy'n Eich Gwneud Chi'n Hapus?'**

Gall unigolion neu grwpiau o blant a phobl ifanc gyflwyno ceisiadau.

Postiwch eich cynigion i:- **Sarah Dixon, d/o Gwasanaethau Addysg a Phlant, Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ**, neu eu danfon â llaw i'r **Derbynfa yn Neuadd y Sir, Rhuthun**, wedi'u cyfeirio at **Sarah Dixon**.

Rhaid i bob cais gael ei gyflwyno gyda ffurflen cais wedi'i chwblhau'n llawn sy'n gweithredu fel caniatad / cytundeb y plentyn neu'r person ifanc er mwyn i'w waith gael ei rannu.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau nad ydynt yn cael eu hateb gan y wybodaeth a ddarperir yma, siaradwch â Sarah Dixon ar 07881 008 621 neu e-bostiwch hi - sarah.dixon@sirddinbych.gov.uk

Edrychwn ymlaen at glywed gennych a gweld eich gwaith!



Cyngor Sir Ddinbych a Hwb Gogledd Cymru NSPCC Prestatyn
Cystadleuaeth Arlunio Ysgolion



LLES

*'Beth sy'n Eich
Gwneud Chi'n Hapus?'*



FFURFLEN MYNEDIAD

Enw'r Disgybl(ion)

Enw'r Ysgol

Cyfeiriad yr Ysgol

Rhif ffôn yr Ysgol

Cyfeiriad e-bost yr Ysgol

Aelod Staff Cyswllt

Nifer o geisiadau sydd gyda'r ffurflen hon

